# Cyfarchion o'r Arctig - Huw Eirug Davies

Tunngasugitsi (Croeso) i Nunavut!

*Sukuttianiippa?* (Ble yn union y mae hwn?) Nunavut yw tiriogaeth fwyaf gogleddol Canada. Dyma'r Arctig a dyma fy nghartref i a'm gwraig Cheryl ers dechrau 2009. Rydym yn byw yn Iqaluit, prif dref tiriogaeth Nunavut. Mae Iqaluit ar Ynys Baffin yn nwyrain Nunavut. Ffurfiwyd y diriogaeth yn 1999 ac, fel Cymru, mae ganddynt Gynulliad yma yn Iqaluit sy'n rhoi mesur o hunan reolaeth dan drefn ffederal Canada. Dyma un o lefydd mwyaf anghysbell ac unigryw'r byd.

Mae Nunavut yn wlad o fynyddoedd, *fjords*, rhewlifoedd a mynyddoedd rhew (*icebergs*) rhyfeddol - yr oll dan fantell o eira. Does dim coed yma - dim ond twndra. Mae'r hafau'n fyr a'r gaeafau'n oer iawn gyda'r tymheredd yn aml yn cyrraedd -50° . Mae'n dywyll am oriau maith yn y gaeaf ac yn olau dydd trwy'r nos yn yr haf! Rydym hefyd yn profi Goleuni'r Gogledd, sef yr *Aurora Borealis* yn gyson yn ystod y misoedd cyn ac ar ôl y gaeaf caled.

Inuit yw brodorion Nunavut ac mae llawer yn dal i fyw ar bysgota a hela. Mae'r Inuit yn cael eu cydnabod trwy'r byd am eu cerfluniau, printiau a'u crefft ffabrig. Inuktitut yw enw'r iaith frodorol a bu'r pwyslais dros y canrifoedd ar drosglwyddo eu traddodiadau a'u chwedleuon ar lafar. O ganlyniad, mae yna brinder gwaith ysgrifenedig yn Inuktitut - yn enwedig ar gyfer ysgolion. Mae'r bywyd gwyllt yn doreithiog yma. Ceir eirth polar, narwhal, morfilod beluga a *bowhead*, *walrus*, *caribou*, *muskox* a morloi yn rhannu'r tir a'r dwr gyda'r Inuit. Mae'r anifeiliaid hyn wedi cynnal a chaniatáu i ddiwylliant yr Inuit ddatblygu dros y canrifoedd. Maent wedi rhoi bwyd, lloches, dillad, tanwydd a defnydd crai i'r Inuit i greu offer, arfau a'u crefftau.

'Rydym yn mwynhau ein bywyd yma yn fawr iawn. Daeth fy meibion, Ifan a Siôn, i aros gyda ni o'r coleg dros y Pasg a doedden nhw ddim am adael! Cawsant gyfle i fynd ar sled cwn ac yna teithio ar '*snowmobiles*' i wersylla yn yr eira dros nos. Profiadau gwych! Cheryl yw comisiynydd ffilm y diriogaeth a dwi wedi bod yn gweithio gyda'r '*Inuit Broadcasting Corporation*' - cwmni sy'n creu rhaglenni teledu yn Inuktitut. Fi yw'r unig ddyn gwyn sy'n gweithio yno a dwi wedi gorfod dysgu rhywfaint o Inuktitut yn eithaf cyflym! Er mor arw yw'r tywydd yma, mae wedi bod yn brofiad anhygoel i ddod i adnabod a gwerthfawrogi diwylliant yr Inuit. Maent yn bobl addfwyn a chymwynasgar iawn.

Wel, dyna i chi ychydig o gefndir y rhan yma o'r byd. Mae 'na gymaint mwy i sôn amdano ....ond tro arall 'falle! *Taimakalauq!* (Dyna'r cyfan am y tro!) *Tavvauvutit!* (Hwyl fawr!).